newyddion
LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice
Llais Sir Gâr

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at arolwg diwethaf Llais Sir Gâr. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser ac mae'r ymatebion yr ydym wedi'u derbyn yn ei wneud yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i nodi ein diolch, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn cystadleuaeth. Dewiswyd enillydd ar hap o Arolwg 16 ac mae ein henillydd, o ardal Caerfyrddin, bellach â £50 yn ychwanegol yn ei boced!

Sicrhewch eich bod yn cwblhau Arolwg 17 (yn amgaeedig) i gael cyfle i ennill y tro nesaf.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Diogelwch ar y Ffordd

Gofynnwyd i chi roi'r 3 mater diogelwch ar y ffordd oedd yn peri'r pryder mwyaf i chi yn nhrefn eu blaenoriaeth. Y canlyniadau, yn nhrefn blaenoriaeth oedd:
1) Yfed a gyrru
2) Gyrwyr dan ddylanwad cyffuriau nas cafwyd ar bresgripsiwn
3) Gyrwyr sydd wedi blino

Rheoli Traffig

Pan ofynnwyd i chi drefnu Gwasanaethau Rheoli Traffig y Cyngor ar raddfa o 1 - 6 lle'r oedd 1= blaenoriaeth uchaf a 6= blaenoriaeth isaf, y canlyniadau ar gyfer y rhai a sgoriodd 1 h.y. y flaenoriaeth uchaf oedd:

Gostwng damweiniau traffig ffyrdd	69.0%
Cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr ffordd bregus (gan gynnwys cerddwyr, beicwyr)	33.8%
Gostwng cyflymder traffig i'r terfyn cyfreithlon	29.1%
Cynlluniau rhwystro damweiniau ar ffyrdd lle mae arnynt derfyn cyflymder cenedlaethol	21.8%
Cynlluniau arafu traffig mewn mannau trefol	20.9%
Rheoli traffig drwy ddefnyddio camerâu parhaol / symudol	14.5%

Y gyfran uchaf o ymatebion i'r cwestiwn am effeithlonrwydd y cynlluniau arafu traffig a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin oedd 'gweddol fodlon' (29.3%); y gyfran uchaf o ymatebion i'r cwestiwn am lefel y cynlluniau arafu traffig a ddarparwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin oedd 'gweddol fodlon' (33.3%), ond mewn ymateb i'r ddau gwestiwn roedd cyfran uchel iawn wedi mynegi anfodlonrwydd.

Gofynnwyd i chi beth oedd eich barn am effeithlonrwydd nifer o elfennau rheoli traffig:

- Roedd 78.3% yn fodlon ag effeithlonrwydd arwyddion rheoli ar y ffordd (terfynau cyflymder, arwyddion aros ac ildio)
- Roedd 83.6% yn fodlon ag effeithlonrwydd arwyddion rhybuddio (troeon yn y ffordd, pantiau yn y ffordd, cyffordd o'ch blaen)
- Roedd 82.9% yn fodlon ag effeithlonrwydd arwyddion negeseuon amrywiol (arwyddion electronig sy'n dangos negeseuon)
- Roedd 79.5% yn fodlon ag effeithlonrwydd y marciau ffordd
- Roedd 73.9% yn fodlon ag effeithlonrwydd cyfleusterau i gerddwyr (ynysoedd i gerddwyr, croesfannau sebra / pelican)

GWEITHREDU:
Mae'r ymatebion a gafwyd i faterion Diogelwch Ffyrdd a Rheoli Traffig wedi bod o ddiddordeb mawr i'r Tîm Rheoli Trafnidiaeth, ac yn y newyddlen nesaf byddwn yn rhoi gwybod i chi am y ffyrdd y defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad.

HEDDLU DYFED-POWYS

Rhaglen Dysgu a Datblygu Hil ac Amrywiaeth yr Heddlu

Ar hyn o bryd mae Heddlu Dyfed-Powys yn edrych ar ddulliau o weithredu'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Hil ac Amrywiaeth (PRDLDP), a fydd yn canolbwyntio ar feysydd fel oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol a'r Gymraeg.

Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar ymwneud â'r gymuned a'i hannog i gymryd rhan, yn ogystal â rhyngweithio ar sail ystafell ddosbarth. Gofynnir i swyddogion yr Heddlu a'r staff gymryd rhan.

Gofynnwyd i chi am eich safbwyntiau i gyfrannu at gynllunio'r cynllun yn y dyfodol. Roedd dros bedair rhan o bump ohonoch (86.1%) yn teimlo bod canolbwyntio ar ymwneud â'r gymuned ac ymgysylltu â hi yn gam cadarnhaol ac roedd dros dri chwarter ohonoch (78.7%) yn teimlo bod cynnwys y gymuned yn y rhaglen yn gwella hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth heddlu.

Pan ofynnwyd i chi…'Beth yn eich barn chi yw'r ffordd orau o gael cymunedau a Swyddogion/Staff yr Heddlu i gymryd rhan yn y rhaglen? eich ateb oedd:

Profiad gwaith yn y gymuned (Swyddogion/Staff yr Heddlu yn treulio amser mewn gwahanol leoliadau yn y gymuned)	57.0%
Cynnal cyfarfodydd cymunedol	42.3%
Rhoi cyfle i bobl rannu'u profiadau gyda swyddogion/staff yr heddlu	38.4%
Cynnal grwpiau ffocws (sesiynau trafod anffurfiol ar gyfer grwpiau bach o bobl leol)	27.8%
Chwarae Rhan (actio sefyllfaoedd)	5.0%

Roedd nifer ohonoch wedi rhoi manylion grwpiau neu gyfarfodydd penodol yn eich cymuned yr oeddech yn teimlo y dylai swyddogion/staff yr heddlu naill ai fod mewn cysylltiad â hwy yn rheolaidd neu ddod yn rhan ohonynt/ eu mynychu – pobl ifane, ysgolion a grwpiau ieuenctid.

Dywedodd dros draean ohonoch (39.9%) y byddech yn fodlon cyfrannu at sesiynau ymwneud â'r gymuned, a'r ffordd fwyaf poblogaidd o wneud hyn oedd 'rhannu profiadau gyda swyddogion/staff yr heddlu' (82.9%), yna 'chwarae rhan' (20.0%), 'profiad gwaith' (15.6%) a bod yn 'siaradwr gwadd' (12.2%).

GWEITHREDU:
Rydym newydd ddechrau ein trydydd cwrs ar IPLDP ac rydym yn fodlon iawn â'r ffordd y mae pethau'n datblygu. Mae'r holl gyrsiau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac rydym yn awyddus i gynyddu lefel yr ymwneud â'r gymuned a'r pynciau yr ydym yn eu darparu i fodloni anghenion y gymuned. Pwrpas y sesiynau holi ac ateb fydd helpu yn y broses hon ac fel y gall ein cwrs adlewyrchu'r cymunedau y bydd y swyddogion yn eu plismona.

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

GWASANAETH PRAWF DYFED-POWYS

Mae 6 prif flaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn 2006/ 2007, a gofynnwyd i chi eu rhoi yn nhrefn blaenoriaeth. Cafodd pob un o'r 6 blaenoriaeth sgôr uchel, ac mae'r manylion isod:

1af	Cydweithio ag asiantaethau eraill y drefn cyfiawnder troseddol er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag niwed
2ail	Gweithredu Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gan ganolbwyntio ar gosbau cymunedol a chyflwyno'r ddedfryd newydd 'Custody Plus' (pob oedolyn sy'n garcharor i gael cyfnod dan oruchwyliaeth cyn cael ei ryddhau).
3ydd	Gweithredu Strategaeth Lleihau Ail-droseddu Cymru i sicrhau bod darparu gwasanaethau lleol i droseddwyr yn cael blaenoriaeth
4ydd	Parhau i gyfrannu i ddatblygiad y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
5ed	Datblygu model cyflwyno gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar Unedau Rheoli Sylfaenol yr Heddlu ac sy'n gysylltiedig â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
6ed	Gwneud Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn rhan o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn enwedig yn ei waith gyda throseddwyr a'i bolisïau Adnoddau Dynol

Yna fe wnaethom ofyn i chi…' Beth yn eich barn chi sy'n helpu troseddwyr i ailsefydlu yn y gymuned fel nad ydynt yn aildroseddu?' Roedd angen i chi raddio cyfres o opsiynau fel a ganlyn: 'pwysig iawn,' gweddol bwysig', 'gweddol ddibwys a 'dibwys iawn'.

Yr opsiynau oedd bwysicaf i chi oedd:

1) Gwaith	Barn 74.0% oedd 'pwysig iawn'
2) Dysgu meddwl ac ymddwyn yn wahanol	Barn 70.6% oedd 'pwysig iawn'
3) Cyngor am gyffuriau	Barn 63.3% oedd 'pwysig iawn'
4) Cyngor am ddefnyddio alcohol	Barn 57.0% oedd 'pwysig iawn'

Yr opsiynau lleiaf pwysig i chi oedd:

1) Cyfarfod â dioddefwyr y drosedd	Barn 4.0% oedd 'dibwys iawn'
2) Mentora gan wirfoddolwr o'r gymuned	Barn 3.3% oedd 'dibwys iawn'
3) Cyngor iechyd corfforol	Barn 2.6% oedd 'dibwys iawn'

GWEITHREDU:
Mae Caroline Morgan, y Prif Swyddog, wedi darllen y canlyniadau â diddordeb mawr am fod Diogelu'r Cyhoedd yn cael ei ystyried yn nod pwysig gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin. Hefyd, mae'r cysylltiad rhwng gwaith, newid ymddygiad, cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad troseddol yn cyfateb i'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailwampio'n ddiweddar i roi pwyslais arbennig ar fod ymyriadau yn targedu'r anghenion hyn.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio yn Ardal Prawf Dyfed-Powys i helpu gyda'r gwasanaethau cynllunio a byddant yn cael eu rhannu gyda chydweithwyr Prawf ledled Cymru mewn gweithdy ym mis Medi sy'n edrych yn benodol ar adborth cwsmeriaid/rhanddeiliaid.

YMDDIRIEDOLAETH GIG SIR GAERFYRDDIN

Profion gwaed

Pan ofynnwyd i chi a fuoch yn un o ysbytai Sir Gaerfyrddin am brawf gwaed yn y 12 mis diwethaf, dywedodd 22.4% ohonoch eich bod wedi bod yn Ysbyty Tywysog Philip, roedd 31.9% wedi mynychu Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac roedd 3.5% wedi mynychu Ysbyty Dyffryn Aman.

Yn galonogol iawn, roedd cyfran uchel ohonoch a ymwelodd â'r ysbyty i gael prawf gwaed wedi dweud eu bod yn gallu canfod yr Adran yn rhwydd (92.8% Gorllewin Cymru, 94.4% Tywysog Phillip ac 86.3% Dyffryn Aman) ac y gallent gael sedd yn y man aros (89.5% Gorllewin Cymru, 93.4% Tywysog Phillip a 95.0% Dyffryn Aman).

Ar y cyfan, roedd yr amserau aros am brawf gwaed yn 'llai na 30 munud' ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac Ysbyty Dyffryn Aman a rhwng '30 munud ac awr' ar gyfer Ysbyty Tywysog Phillip.

Grŵp Gordewdra Sir Gâr

Yng Nghymru amcangyfrifir bod 30% o'n plant a'n pobl ifanc yn rhy dew neu'n ordew. Bydd plant gordew yn tyfu'n oedolion gordew ac mae'r duedd hon yn awgrymu y gallai eu pwysau effeithio ar hyd eu heinioes. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon yn Sir Gâr, mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn awyddus i wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant gordew a'u teuluoedd.

Pan ofynnwyd 'Petai eich plentyn yn pwyso mwy na'r pwysau delfrydol neu'n ordew, pa rai o'r canlynol fyddai orau gennych yn eich barn chi?', 'bwydlen iach yn yr ysgol' oedd ar frig y rhestr gyda 83.3% o ymatebion. Ymhlith y dewisiadau poblogaidd eraill yr oedd 'dosbarth ymarfer corff" (61.6%), 'Sesiwn un i un gyda Dietegydd ' (49.0%), 'Gwiriad pwysau rheolaidd (45.8%) a Sesiwn/Sesiynau grŵp ar ddiet a ffordd o fyw (43.0%).

Roeddech yn meddwl mai'r lleoliad gorau ar gyfer cael cyngor ar reoli pwysau oedd y feddygfa leol 49.9%, ac yna Canolfan Iechyd (40.0%).

GWEITHREDU:
Bydd tîm patholeg GIG Sir Gaerfyrddin yn ystyried yr adborth mewn perthynas â phrofion gwaed er mwyn datblygu'r gwasanaethau patholeg yn y dyfodol.

Mae'r canlyniadau yn achos gordewdra ymhlith plant yn cael eu hystyried gan Grŵp Gordewdra Pediatrig Aml-asiantaeth Sir Gaerfyrddin i'w cynnwys yn y strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin. Mae gwaith eisoes ar y gweill i wella prydau ysgol mewn ysgolion cynradd a chaiff hyn ei ddatblygu fwy fyth yn y flwyddyn sy'n dod.

BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Ymgynghori ar Wasanaethau Iechyd

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad ffurfiol ar Wasanaethau Iechyd rhwng mis Ebrill a Mehefin 2006, sef 1) yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Llawfeddygol Cyffredinol a 2) yr Adolygiad o Wasanaethau Aciwt Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd trwch blewyn o dan chwarter ohonoch (23.8%) yn gwybod am yr Adolygiad o'r Gwasanaethau Cyffredinol ac roedd trwch blewyn o dan pumed rhan ohonoch (19.1%) yn gwybod am Adolygiad Gwasanaethau Aciwt Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ar y cyfan, roedd 15.1% ohonoch wedi gweld yr hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg ac roedd 15.5% ohonoch wedi gweld yr erthygl yn y cylchgrawn Newyddion Cymunedol am yr ymgyngoriadau. Dywedodd pumed rhan ohonoch (21.8%) eich bod yn gwybod am gyfarfodydd y Panelau Iechyd newydd (cafodd yr ymgyngoriadau eu trafod yn y cyfarfodydd hynny). Dim ond 13.8% ohonoch ddywedodd eich bod yn fodlon â'r broses ymgynghori (roedd 22.7% yn anfodlon a 63.5% yn ansicr). Gwnaed nifer o sylwadau yn rhoi cyngor am sut i wella'r broses wrth ymgynghori ar wasanaethau iechyd yn y dyfodol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gwella'r cyfathrebu drwy wella hysbysebu a chyhoeddusrwydd, bod gwybodaeth i gael ei hegloro'n fwy agored a chlir, fel bod y cyhoedd yn gwybod am ac yn deall yr hyn sy'n digwydd yn y GIG a hefyd y dylid cwrdd â'r cyhoedd a siarad â hwy.

Am fwy o wybodaeth am y broses ymgynghori a manylion ynghylch pryd fydd y canlyniadau'n cael eu rhyddhau, ewch i wefan Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin www.carmarthenlhb.wales.nhs.uk neu cysylltwch â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn uniongyrchol ar 01554 744 400.

GWEITHREDU:
Bydd Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r sylwadau a wnaed gennych am y broses ymgynghori ar gyfer ymgyngoriadau yn y dyfodol.

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01554 742304.



ADBORTH

Parhewch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydlynydd Ymgynghori
Cwsmeriaid a Pholisi
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref
Llanelli

Ffôn: 01554 742304
E-bost: consultation@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board
Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN